# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 14/03/2023 am 7yh

**WEDI EI OHIRIO TAN 21AIN MAWRTH 2023 OHERWYDD COVID**

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Lleucu Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Caren Jones | Gito Williams | Janice Evans | Gwynfor Jones | Mared Llywelyn Williams |
| Alaw Llewelyn Roberts | Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Carys Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Eitem 11 – ceisiadau am gyfraniad ariannol – Mared Llywelyn Williams yn aelod o Gôr Cantorion Llŷn.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 14/02/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Llygredd ar y traeth yn Morfa –** Gito Williams & Gareth Jones
   Mynegwyd cryn bryder wedi colofn yn y Daily Post yn ddiweddar ddweud fod traeth Morfa Nefyn ymysg y 10 mwyaf llygredig gan garthffosiaeth drwy'r wlad ac yn dilyn hyn mae'r aelod lleol wedi cysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac Amgylchedd Gwynedd i ofyn wrthynt edrych i fewn i'r mater ac i ofyn tri peth iddynt sef: 1. Beth yn union yw cyflwyr y dŵr yn afon Geirch ac ym mae Porthdinllaen a bae Nefyn? 2. A ydynt yn monitro os oes gormod o garthffosiaeth yn dod i Morfa Nefyn? 3. A yw'r carthffosiaeth yn dod o'r tai gwyliau ym Mhorthdinllaen ac allan yn syth i'r bae? Nid yw wedi derbyn ymateb eto felly penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf i roi cyfle iddynt ymateb. Awgrymwyd i'r aelod lleol gysylltu hefo Mabon Ap Gwynfor a Liz Saville Roberts i dynnu eu sylw i'r mater hefyd.
   **Cynnig i roi £100 i noddi Clwb Peldroed Nefyn Unedig –** Gruffydd Williams
   Gan fod CTN wedi cael eu dewis i noddi'r gem dydd Sadwrn diwethaf cafwyd cynnig i roi £100 iddynt ond yn anffodus nid oedd neb yn gallu mynd yno i gynrychioli CTN nac i gyflwyno'r rhodd yma iddynt.
   Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £100 iddynt rwan a gofyn am gael gweld eu sefyllfa ariannol er mwyn ystyried rhoi mwy yn y dyfodol.
   Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Arfon Hughes
   **Ebost Amelia Maddox cais cynllunio C21/1030/42/LL**
   Derbyniwyd ebost ynglŷn â'r cais cynllunio uchod a wrthodwyd nôl yn 2022 gan yr asiant gyda

eglurhad i'r sylwadau a gyflwynwyd gan CTN i'r adran gynllunio ar y cais yr adeg hynny. Maent yn gofyn am gyngor CTN wrth symud ymlaen gyda cynllun drafft newydd o ddeuddeg tŷ fforddiadwy. Penderfyniad: Ymateb drwy ddweud bod CTN dim ond yn rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio sydd wedi cael eu cyflwyno yn ffurfiol i'r adran gynllunio.

5. **Sedd Wag**
Derbyniwyd enw drwy ebost yn ymgeisio ar gyfer y sedd wag ar CTN yn ward Nefyn.
Penderfyniad: derbyn yr enw.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

6. **Traffic ar Y Bont ac Allt Goch yn Edern –** Caren Jones a Gito Williams
Mae llif y traffic ar y bont yn Edern yn uchel ofnadwy ac nid yw ceir yn arafu a stopio bob tro i'w gilydd felly cafwyd cynnig i gael yr un math o beth ac sydd yn Nefyn, wrth fynd allan o Nefyn wrth ymyl Stad Holborn ac wrth ddod i mewn i Nefyn o gyfeiriad Pistyll sef un ochor yn gorfod ildio i'r llall. Mae'r clerc a'r aelod lleol am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i fynd ar ôl hyn.
Cafwyd cynnig hefyd i gwyno am y diffyg goleuadau stryd ar Allt Goch Edern ac hefyd bod yna ormod o gambr ar y llwybyr ar y gornel ar dop yr allt.

7. **Clwb Ieuenctid -** diweddariad
Mae'r clerc wedi cael cadarnhad gan Andrew Owen y bydd yn dod i Nefyn o fis Medi 2023 ymlaen am 12 wythnos i gynnal nosweithiau o weithgareddau ac hynny am ddim fel rhan o'i raglen waith fel Gweithiwr Ieuenctid Cyngor Gwynedd.

8. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff –** diweddariad
Mae un o'r aelodau wedi bod yn y Llyfrgell i weld beth maent eisiau ei wneud yno ac mae wedi cael eglurhad eu bod eisiau cael gwared o'r toiled staff gan nad ydynt yn ei ddefnyddio er mwyn rhoi silfoedd i fyny. Maent eisiau cadw'r sinc â'r sillindr dŵr poeth sydd uwch ei ben er mwyn i'r glanhawraig gael llenwi'r bwced ar gyfer y mop. Dywedodd un o'r aelodau bod angen gwneud yn saff bod y sinc â'r silinder i fyny a'r gofynion os yw yn cael ei ddefnyddio i lenwi'r bwced hefo dŵr poeth ac felly mae dau o'r aelodau am fynd yn ôl yna i weld ac mae un o'r aelodau am siarad hefo'r glanhawraig i weld beth mae hi yn ei ddefnyddio ac adrodd yn ôl i bwyllgor mis nesaf.

9. **Blodau at yr Eisteddfod** – Cadeirydd
Mae'r is-bwyllgor blodau wedi cyfarfod ac wedi penderfynnu cael arddanghosfa flodau wrth ymyl cylchfan Bryn Cynnan ac unai ceisio plannu 'Croeso' mewn blodau neu ei gael fel llythyrennau mewn pren yno. Maent eisiau ei roi ar y llecyn gwellt o flaen caeau Botacho ar y llaw chwith wrth droi am Nefyn ar y gylchfan pan yn dod o gyfeiriad Morfa Nefyn felly mae'r clerc am gysylltu hefo Adran Stadau i weld os oes angen caniatad i wneud hyn.

10. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Gorchymyn Cyngor Gwynedd** (Gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd a diddymu) (Ardal Dwyfor rhif 7) 2023
      Penderfyniad: Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau na'r gwaharddiadau.

**11. Cais am gyfraniad ariannol**

- **Macmillan –** dim cyfraniad.
- **Theatr Bara Caws –** rhoi cyfraniad o £300.00
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts
- **Ambiwlans Awyr Cymru –** dim cyfraniad.
- **Tenovus –** dim cyfraniad.
- **Urdd Gobaith Cymru Eryri –** rhoi cyfraniad o £1000.00
  Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Rhys Llewelyn
- **Eisteddfod yr Urdd 2023** – dim cyfraniad.
- **Dawns i Bawb** – dim cyfraniad.
- **Côr Cantorion Llŷn –** rhoi cyfraniad o £500.00
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts
- **Eisteddfod Llangollen 2023** – dim cyfraniad.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

Ceisiadau Diweddarach

**C23/0209/42/DT –** Sŵn y Wylan, 8 Penrhos, Lôn Penrhos, Morfa Nefyn – Cais ar gyfer dymchwel estyniad unllawr cefn presennol a chodi estyniad rhannol unllawr a rhannol deulawr to fflat ar gefn yr eiddo.
Penderfyniad: Sylwadau: Rhaid sicrhau nad yw'n amharu ar breifatrwydd y cymdogion o'i gwmpas.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts Eilio: Mared Llywelyn Williams

**C23/0200/42/LL –** Heulwen, Lôn Cae Glas, Edern – Cais llawn i newid defnydd o swyddfa bost a siop i fodurdy domestic ynghlwm a tŷ preswyl presennol.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Gito Williams Eilio: Caren Jones

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1118.38
- John Gwynfor Jones – Agor bedd Helen Mai Roberts, Nesta Williams a Thomas Myfyr Wheldon Williams - £1500.00
- Un Llais Cymru – Aelodaeth 2023-2024 - £590.00
- D M Parry – Clirio'r eiddew oddi ar y beddi - £980.00
- N Power – Trydan y Llyfrgell mis Chwefror - £8.75
- HMRC – PAYE mis 11 - £111.63
- Cliff Hughes – taliad 10 cytundeb llwybrau a gwaith ychwanegol - £1368.37
- D S Williams – Trin y Rhandiroedd - £198.00
- John Gwynfor Jones – Agor bedd Maira Helen Griffith - £450.00
- Dŵr Cymru – Treth dŵr y Llyfrgell - £602.64
- Cyngor Gwynedd - Cytundeb Glanhau Llyfrgell Nefyn 2022-2023 - £1872.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

**Penderfyniad**: talu pob anfoneb.
Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Caren Jones

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – Angladd Elizabeth Davies Owen, Doreen Cartwright, Owen Medwyn Williams a Nellie Augusta Jones - £4115.00
- H O Davies – Angladd Helen Mai Roberts - £1500.00